

YR AELOD CABINET DROS GARTREFI A DIRPRWY ARWEINYDD

DYDD Mawrth, 6 Chwefror 2024

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: L.D. Evans (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

R. Phillips, Rheolwr Rhaglenni Ewropeaidd

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraataidd

Ystafell Aelod y Cabinet ac o Bell Neuadd y Sir, Caeryrddin SA31 1JP - 2.00 - 2.25 yp

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 8 IONAWR, 2024

PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 8 Ionawr 2024, gan ei fod yn gywir.

3. CRONFA CYMORTH BWYD UNIONGYRCHOL

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ystyriaeth i adroddiad ar gynigion i sefydlu cyfres o fentrau i gefnogi anghenion pobl sy'n wynebu tldi bwyd yn Sir Gaerfyrddin, fel rhan o Gronfa Cymorth Bwyd Uniongyrchol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 y dyrannwyd cyllideb i'r Cyngor o £45,647 (cyllid cyfalaf) a £55,916 (cyllid refeniw).

Er mwyn cefnogi anghenion cymunedau lleol, cynigiwyd bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r grantiau trydydd parti canlynol (fel y manylir yn yr adroddiad) a weinyddir gan Dîm Biwro'r Cyngor o fewn Datblygu Economaidd:

- Cymorth i Fanciau Bwyd
- Cymorth Digidol
- Cronfa Gyfalaf

Nododd yr Aelod Cabinet, o ran y cymorth a ddarperir i fanciau bwyd sydd wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin, y byddai banciau bwyd sydd wedi'u lleoli o fewn ardaloedd awdurdodau cyfagos hefyd yn gymwys i wneud cais am gyllid ar yr amod eu bod yn rhoi cymorth i drigolion yn Sir Gaerfyrddin.

PENDERFYNWYD

3.1 Cymeradwyo sefydlu'r grantiau trydydd parti canlynol drwy Gronfa Gymorth Llywodraeth Cymru a weinyddir gan Dîm Biwro'r Cyngor o fewn Datblygu Economaidd:

- Cymorth i Fanciau Bwyd
- Cymorth Digidol

- Cronfa Gyfalaf
- 3.2 Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol i ddyfarnu cyllid i ymgeiswyr llwyddiannus.

AELOD O'R CABINET

DYDDIAD